**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
Ein cyf/Our ref: JH/PO/652/25

Jenny Rathbone AS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Jenny,

**Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2025 ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel rhan o waith craffu cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu a'i ystyriaeth yng nghyfnod 1.

Ochr yn ochr â'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor yn ofalus.

Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r gyfres o argymhellion cyn Trafodaeth Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) – Rhagfyr 2025**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yng Nghyfnod 1. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ac yn croesawu craffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1. |
| **Argymhelliad 2.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn adolygu'r disgrifiad o IAP a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ac yn ystyried rhinweddau cynnwys diffiniad clir o IAP ar wyneb y Bil ac a oes angen gwelliannau i gyflawni hyn. Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil anelu at ymateb i'r argymhelliad hwn erbyn 7 Ionawr 2026 fel y gall yr Aelodau ystyried yr ymateb cyn trafodion Cyfnod 2, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pryderon rhanddeiliaid am y disgrifiad o IAP a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn ôl yr angen i ystyried a diweddaru'r disgrifiad hwn ac ystyried rhinweddau cynnwys diffiniad clir o IAP ar wyneb y Bil. |
| **Argymhelliad 3.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau IAP o fewn yr un amserlenni neu amserlenni tebyg â'r rhai a bennir ar gyfer y strategaeth IAP genedlaethol. Mae'r pwyllgor o'r farn, oni bai bod dadl gref o blaid amserlen wahanol, y dylai 18 mis ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu fod yn ddigonol ac yn briodol. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cyhoeddi’r canllawiau IAP o fewn amserlen debyg i'r strategaeth IAP genedlaethol a bod 18 mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym yn amserlen resymol i hyn ddigwydd. |
| **Argymhelliad 4.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynnwys y canllawiau IAP cyn eu cyhoeddi. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau IAP cyn eu cyhoeddi. |
| **Argymhelliad 5.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn: |

▪ sut mae'n disgwyl i gyrff cyhoeddus rhestredig gydweithio ar draws ffiniau gweinyddol wrth baratoi cynlluniau lleol;

▪ sut y bydd yn meithrin gallu cyrff cyhoeddus rhestredig fel bod ganddynt y gefnogaeth a'r arbenigedd cywir i baratoi a gweithredu cynlluniau lleol yn effeithiol;

▪ cadarnhau bod gan y Tîm Gweithredu ar gyfer y Bil adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gyflawni'r argymhelliad hwn. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd hyn ar waith cyn dadl Cyfnod 1 sydd wedi'i threfnu ar gyfer 17 Rhagfyr 2025.

**Derbyn**
Mae eisoes yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig gydweithio. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r canllawiau IAP nodi ffyrdd o weithio i gefnogi cynllunio cost-effeithiol, ymgysylltu â'r gymuned IAP, a threfniadau adrodd a chyflawni ar gyfer cyrff cyhoeddus rhestredig. Bydd y canllawiau IAP yn cynnwys disgwyliadau ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau gweinyddol wrth baratoi cynlluniau IAP lleol. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu llywio gan y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo. Y bwriad yw y bydd y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo yn cefnogi meithrin gallu cyrff cyhoeddus rhestredig.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru dîm polisi IAP yn yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2024/25. Bydd y tîm hwn yn goruchwylio gweithredu'r ddeddfwriaeth, pe bai'n dod yn gyfraith, ac yn cyflawni'r argymhelliad hwn.

Cytunwyd hefyd y bydd darpariaeth yn cael ei wneud o gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer costau llawn blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil (hyd at uchafswm o £214,300 yn 2026-27 yn unig), yn seiliedig ar y ffigurau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Aelodau. Bydd angen i'r Llywodraeth nesaf benderfynu ar gyllid y tu hwnt i 2026-27 yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2026.

**Argymhelliad 6.**
Mae'r Pwyllgor yn nodi, o dan adran 7(2), y rhagwelir y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu adroddiadau cynnydd ym mhob cyfnod o 3 blynedd ar ôl i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi. Mae'r pwyllgor yn argymell bod yr adroddiadau cynnydd cynnar sy'n ofynnol gan y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cynnwys ystyried a ddylid ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill at y Bil.

**Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai adroddiadau cynnydd Llywodraeth Cymru sy'n ofynnol bob 3 blynedd gynnwys ystyried a ddylid ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill o dan y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith. Dylai'r Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo roi cyngor ar yr ystyriaethau hyn.

**Argymhelliad 7.**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn ystyried sut y gall y broses benodi sicrhau bod anghenion y gymuned Fyddar yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y broses benodi ar gyfer y Cynghorydd IAP. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch hyn mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yr ydym yn ei ddisgwyl mewn pryd ar gyfer dadl Cyfnod 1 a gynhelir ar 17 Rhagfyr 2025.

**Derbyn**
Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer y Cynghorydd IAP yn adlewyrchu anghenion y gymuned arwyddo IAP. Bydd Llywodraeth Cymru

| |
|---|
| yn gweithio gyda'r gymuned IAP drwy Grŵp Rhanddeiliaid IAP Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau yn y broses. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i'r gymuned arwyddo IAP er mwyn sicrhau ystod amrywiol o ymgeiswyr. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant mewn perthynas â'r broses ymgeisio a chyfweliadau. |
| **Argymhelliad 8.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai rôl y Cynghorydd IAP gael ei chydnabod fel penodiad cyhoeddus sy'n gymwys i fod yn destun proses graffu cyn penodi a bod y pwyllgor priodol yn y Senedd nesaf yn cael cynnig y cyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Mae'r pwyllgor yn cytuno y gellir cyflawni'r newid hwn yn anffurfiol drwy gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd ac y dylid gwneud hynny nawr er mwyn rhoi arwydd cadarn o fwriad i lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cydnabod rôl y Cynghorydd BSL fel un sy'n gymwys i fod yn destun proses graffu cyn penodi. Cadarnhawyd hyn yn y sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor. |
| **Argymhelliad 9.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil egluro'r opsiynau sydd ar gael i achwynwyr sydd angen cymorth mewn achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu gan y Senedd) ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol a allai helpu yn hynny o beth. |
| **Derbyn**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil i egluro'r opsiynau sydd ar gael i achwynwyr pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil ac yn darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol yn ôl yr angen. |
| **Argymhelliad 10.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar y llwybr priodol i arwyddwyr IAP allu gwneud cwynion ynghylch mynediad at wasanaethau. Dylai hyn ddod law yn llaw â dyletswydd i ymgynghori ar y canllawiau hynny a phennu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgynghorai mandadol. |
| **Gwrthod**<br>Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar lwybrau i wneud cwynion, nac i bennu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgynghorai mandadol. Mae mecanweithiau a chanllawiau presennol yn darparu llwybrau priodol i arwyddwyr IAP godi pryderon. |
| **Argymhelliad 11.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau ymgysylltiad a chydgynhyrchu drwy osod |

| |
|---|
| gofyniad ffurfiol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag arwyddwyr IAP Byddar ar y strategaeth a'r canllawiau IAP cenedlaethol. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ffurfiol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag arwyddwyr IAP ar y strategaeth a'r canllawiau IAP cenedlaethol. |
| **Argymhelliad 12.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei hymdrechion i ehangu'r gweithlu o ddehonglwyr IAP ac ymrwymo i:<br><br>▪ adolygu'r amserlenni ar gyfer camau gweithredu y dylid eu cymryd ym Map Llwybrau Grŵp Rhanddeiliaid IAP i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Bil;<br>▪ Gosod targedau blynyddol ar gyfer hyfforddi a recriwtio dehonglwyr a chyfieithwyr IAP;<br>▪ Gosod terfynau amser targed cliriach a mwy uchelgeisiol i atal pethau rhag llithro. |
| **Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r gweithlu dehonglwyr IAP. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP wedi gwneud argymhellion ar gyfer y gweithlu IAP a’r goblygiadau amseru sy’n gysylltiedig â’r argymhellion. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Map Llwybrau IAP yn gynnar yn 2026, a bydd hyn yn cael ei lywio gan gyngor y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ystyriodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Map Llwybrau drafft yn eu cyfarfod ym mis Medi. Bydd camau gweithredu tymor byr yn cael eu cwblhau o fewn 18 mis.<br><br>Dylid cynnwys camau gweithredu hirdymor i gefnogi a datblygu'r gweithlu IAP, gan gynnwys dehonglwyr IAP, yn y strategaeth IAP genedlaethol, gyda thargedau clir ar gyfer hyfforddi a recriwtio dehonglwyr a chyfieithwyr IAP. Rhaid i'r camau hyn gael eu llywio gan adroddiad argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP, y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo. |